

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 8 HYDREF 2019

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Cunnah, Joyce, Naughton, Parkhill, Phillips, Taylor
a/ac Singh

Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig
Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac
Matthew Richards (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Linda Morgan a
Karen Dell'Armi.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

3 : STRATEGAETH ADDYSG - CAERDYDD 2030

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr eitem hon wedi galluogi'r Pwyllgor i adolygu ac
asesu strategaeth 10 mlynedd addysg Caerdydd – sef Caerdydd 2030. Roedd y
Pwyllgor, mewn cyfarfodydd blaenorol, wedi helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad y
Strategaeth.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Diprwy Arweinydd ac Aelod
Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a
Dysgu Gydol Oes) a Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol
Oes) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad lle nododd fod pob plentyn yn
wynebu heriau gwahanol, a bod rhai ar ei hôl hi cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.
Rhaid cydnabod hynny ac felly mae'n bwysig lapio'r strwythur a'r gwasanaethau o
amgylch y plentyn. Ein nod yw sicrhau bod gan ein dinas safon uchel iawn o addysg
ar gyfer pob plentyn.

Aeth Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes) ag Aelodau drwy
adroddiad drafft y Cabinet yn amlinellu mai llawer o'r hyn sydd ei angen dros y deng
mlynedd nesaf fydd cydgrynhoi ac ymestyn y cynnydd a wnaed ers i Gaerdydd 2020
gael ei lansio. Bydd addysg yn edrych yn wahanol iawn yn 2030, mae'n nodi newid
dwfn a systematig. Diben y cynllun yw llunio'r blaenoriaethau a ddylai fod yn amlygu
eu hunain yn y Cynllun Cyflawni'r Uchelgais Prifddinas. Mae'n ymwneud â rhannu
cyfrifoldebau a dal ein gilydd i gyfrif. Mae angen cydnabod hefyd rôl rhieni fel
addysgwyr cychwynnol.

Nodir hyn yn y 2 thema a'r 5 nod:

Themâu:

1. Cyfrifoldeb a rennir dros addysg a dysgu ym mhob cwr o'r ddinas; a
2. Chyfranogiad ystyrllon gan blant a phobl ifanc.

Amcanion:

1. Hawl i ddysgu;
2. Iechyd a llesiant dysgwyr;
3. Cyflawni Cwricwlwm i Gymru 2022 yng Nghaerdydd;
4. Gweithlu addysg sydd gyda'r gorau yn y byd; ac
5. Amgylcheddau dysgu o safon uchel.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Trafododd yr Aelodau'r diffyg cyfeiriad at strategaethau bwlio yn yr adroddiad a dywedwyd wrthynt, er nad oedd wedi'i restru'n benodol, ei fod yn rhan gynhenid o'r cyfeiriadau amrywiol at ddiogelwch a lles plant, a bod y ddelwedd gadarnhaol o'r hyn y dylai plentyndod fod yn rhedeg drwy'r adroddiad cyfan.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith nad oedd yr ysgol yn gweithio i bob plentyn a bod yna fwlch cyrhaeddiad o ran ethnigrwydd yng Nghaerdydd. Derbynnir nad yw'r canlyniadau'n ddigon uchel o hyd a bod llawer o blant a phobl ifanc yn methu â gwneud yn ddigon da am nad ydynt yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y system. Nid oes digon o gynnydd wedi bod o hyd o ran cael gweithlu mwy amrywiol.
- Mynegodd yr Aelodau bryder nad yw pwysigrwydd rôl rhieni/oedolion yn chwarae yn eu haddysg yn cael ei gydnabod yn briodol o fewn y nodau. Er bod y nod cyntaf yn cyfeirio at ddysgu gydol oes o ansawdd uchel, mae'n ymddangos ei fod yn dod i ben ar 19 oed ac nid oes unrhyw gyfeiriad pellach at eu dysgu. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gwerthoedd wedi'u pennu'n glir o fewn y dogfennau a ddarparwyd ond nad oes bwriad i ddarparu gwybodaeth fanwl am weithredu ym mhob ardal. Mae cysylltiadau cryf gydag addysg bellach, mae'n bwysig paratoi dysgwyr i fynd ymlaen ymhellach.
- Nododd yr Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod ysgolion yn ganolog i'r cymunedau lleol ac y datblygir Ymagwedd Ysgol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod sgysiau'n digwydd ac y gall y ddogfen hon helpu i lywio'r sgysiau hynny. Hoffai'r Aelodau hefyd weld nad yw'r dull hwn ond yn ymwneud â'r cyfleusterau chwaraeon y gellir eu defnyddio, ond yn hytrach yn darparu cyfleusterau eraill a all fod ar gael i rieni, er enghraifft dosbarthiadau Saesneg neu gyfrifiaduron.
- Roedd yr Aelodau'n cyfeirio at yr holl ysgolion fel ysgolion sy'n parchu hawliau ac yn holi sut y byddai hynny'n gweithio. Cyngorodd yr Aelod Cabinet y dylid rhoi pwyslais ar lais y

disgybl, mae'n fwy na dim ond gofyn sut y mae am ailgylchu plastig, mae'n ymwneud ag ymgysylltu a llunio'r rheolau o fewn yr ysgol ei hun. Mae'n ymwneud â hwy'n cydnabod nad yw hyn ond amdanyn nhw'n unig, ond mae'n ymwneud â'r person neu'r disgybl sy'n eistedd wrth eu hymyl.

- Trafododd yr Aelodau fesurau llwyddiant a'r ffaith eu bod yn ymddangos braidd yn amwys ond nodwyd mai dogfen ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yw hon ac y byddai dogfennau eraill gyda thargedau penodol.
- Bu'r Aelodau'n trafod y bwlch sylweddol rhwng canlyniadau'r rhai ar incwm uchel ac isel. Nodwyd ei fod yn bodoli mewn dinasoedd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n ddyhead parhaol sy'n heriol iawn.
- Nododd yr Aelodau mai'r dyddiad lansio ar gyfer y ddogfen hon yw 19 Tachwedd yn Neuadd y Ddinas. Gwahoddwyd yr Aelodau i fod yn bresennol.
- Cyfeiriodd Aelodau at y ffaith bod Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn enghraifft o ysgol â chyfleusterau da a ddefnyddir gan y gymuned, a bod buddsoddiad yn yr ysgol honno wedi digwydd. Beth yw'r weledigaeth a'r uchelgais ar gyfer ysgolion sydd â materion yn ymwneud â'u hystâd sydd angen buddsoddiad ymhellach ynddynt. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod her wirioneddol o ran ysgolion yn caniatáu mynediad. Mae'n haws i'r ysgol uwchradd fwy ond yn anoddach i ysgolion cynradd. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ffyrdd o helpu a chefnogi ysgolion. O ran ysgolion lle mae angen buddsoddiad, ni fyddai'n ddoeth bychanu'r her a wynebir mewn perthynas â'r ysgolion hynny.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

4 : PERFFORMIAD DROS DRO YSGOLION CAERDYDD 2018/2019

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi Canlyniadau Ysgol Dros Dro i'r Pwyllgor ar gyfer 2018/19 a bod y papur briffio amgaeedig yn rhoi canlyniadau'r ysgol dros dro i'r Aelodau, ynghyd â dadansoddiad manylach ar draws y gwahanol feysydd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Diprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Aelodau fod newidiadau sylweddol wedi bod yn y trefniadau asesu ac adrodd ar gyfer perfformiad ysgolion a disgyblion yng Nghymru eleni. Yna, rhoddwyd amlinelliad i'r aelodau o ganlyniadau perfformiad allweddol ar lefelau cynradd ac uwchradd. Nodwyd data dros dro ar gyfer y

chweched dosbarth hefyd. Bydd adroddiad mwy manwl yn cael ei baratoi ym mis Ionawr yn edrych ar ysgolion penodol a'r data ehangach.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Trafododd yr Aelodau newidiadau ehangach ac roeddent yn teimlo y bydd ond o fudd i ysgolion gymryd rhan yn y grwpiau gwella a holwyd a fydd hyn yn cael effaith gadarnhaol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ei fod yn ymwneud â chysylltu ysgolion â'r partneriaid priodol yn enwedig lle mae'r perfformiad yn is, bydd hefyd yn helpu i ymgysylltu â'r grwpiau gwella. Teimlid hefyd ei bod yn bwysig edrych ar y gyfres gyfan o fesurau i gynorthwyo'r materion perfformiad yr oedd rhai ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- Roedd aelodau'n pryderu bod y dulliau adrodd newydd yn cuddio perfformiad gwael ac nad oeddent yn tynnu sylw at ysgolion neu ardaloedd penodol mewn ysgolion sy'n methu neu'n dechrau methu.
Hysbyswyd yr Aelodau mai bach iawn yw'r gostyngiad canrannol, mae'n caniatáu dechrau deialog i geisio deall pam ei fod yn digwydd. Mae angen i'r mesurau allu darparu gwybodaeth am sut mae'r ysgol gyfan yn perfformio ac nid rhan ohoni'n unig. Mae angen tryloywder mewn perthynas â'r ysgol gyfan. Mae angen i Gyrff Llywodraethu allu gofyn a chael sicrwydd bod yr hyn a ddywedwyd wrthynt yn cael ei ddilysu gan fesurau caled.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

5 : Y CWRICWLWM NEWYDD

Nododd yr Aelodau fod y cwricwlwm newydd i Gymru yn broject helaeth gyda dyddiad gweithredu o 2022. Y briff a ddarparwyd oedd i alluogi'r Pwyllgor i ddeall y llinell amser sydd ar waith er mwyn sicrhau y caiff ei chyflwyno'n effeithiol yn 2022.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Diprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Natalie Gould o'r Consortiwm i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau - Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol. Rhoddodd Natalie Gould wybodaeth i'r Aelodau ynghylch ble y dylai ysgolion fod ar y pwynt hwn, beth mae'r consortia yn gwneud i gefnogi ysgolion a sut y gall y system wneud ysgolion a'r haen ganol yn atebol am eu cyflawniadau. Roedd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud ar draws y gwahanol ddiwygiadau:

- Y dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol a'r ffaith bod strategaeth genedlaethol a rhanbarthol ond nododd y gallai'r strategaeth edrych yn wahanol yn dibynnu ar ble mae'r ysgol ar ei thaith.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i gynyddu dysgu ysgol i ysgol, ysgolion clwstwr, grwpiau gwella ysgolion ac ymarferwyr arweiniol. Nodwyd hefyd bod cefnogaeth broceru i ysgolion penodol.
- Gan gyfeirio'n benodol at ddiwygio ADY a'r ffocws ar degwch a lles ceir model hyfforddi, mae hyn yn cynnwys hyfforddi hyrwyddwr mewn clwstwr sydd wedyn yn lledaenu'r wybodaeth. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y polisïau a'r prosesau, ond efallai y bydd angen ei adolygu gan gadw mewn cof y newidiadau i'r graddfeydd amser.
- Cafodd y broses o ddiwygio Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ei hadfywio a'i diwygio a chafodd ei lansio ym mis Medi. Mae darparwyr newydd a bydd tri arall y flwyddyn nesaf. Erbyn hyn mae 11 o ysgolion yn gweithio gyda phartneriaid AGA.
- Mae'r Academi Genedlaethol dros Arweinyddiaeth Addysg wedi cael ei sefydlu, erbyn hyn mae rhaglenni ar gyfer penaethiaid newydd a dros dro.
- Y cwricwlwm newydd yw'r rhan o'r diwygiadau y mae pobl yn canolbwyntio arnynt. Mae newidiadau wedi eu gwneud yn barod a bydd y ddogfen yn edrych yn wahanol iawn i'r un a ryddhawyd yn y crynodeb. Y dyddiad targed ar gyfer rhyddhau yw mis Ionawr 2020 o hyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Soniodd yr Aelodau am faint o waith sydd angen ei wneud ac roeddent yn pryderu am y pwysau ychwanegol a fyddai'n dod, yn sgil gweithredu'r holl bolisïau newydd hyn, i ysgolion a oedd eisoes yn tangyflawni. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen cynllunio'r newidiadau ond bod angen sylweddoli beth yw'r pwysau ar y pryd. Mae dal yn rhaid i athrawon ymgymryd â'r gwaith bob dydd. Mae'n ymwneud â chapasiti. Mae gwaith ysgol i ysgol yn wirfoddol ac mae'n bwysig bod ysgolion yn ymgysylltu ar yr adeg iawn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Consortia ond yn gofyn i athrawon baratoi eu hysgol ar gyfer newid. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth.

- Holodd yr Aelodau am Ysgolion Arloesi ac roeddent yn pryderu bod gan yr ysgolion hynny fantais dros ysgolion eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ysgolion yn cael cyllid i helpu. Mae angen disgwyliadau sylfaenol ar gyfer yr ysgolion. Mae angen i bob un ohonynt fod ar bwynt penodol ar adeg benodol.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd yr arloeswyr hynny yn drawstoriad cynrychioliadol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yna

broes ddethol a bod amrywiaeth o ysgolion yn cymryd rhan. I ddechrau roedd ysgolion cynradd, uwchradd, cyfrwng Cymraeg a ffydd yn cymryd rhan, er bod rhai wedi rhoi'r gorau iddi felly mae'n bosibl y bu rhai newidiadau.

- Roedd yr Aelodau o'r farn bod saith o'r naw o ddiwygiadau y cyfeiriwyd atynt yn ymwneud â datblygiad proffesiynol, a dim ond cwpl o flynyddoedd yn ôl oedd yn cael eu gweithredu. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd drafft terfynol y cwricwlwm yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr a fydd yn nodi meysydd dysgu, ac y bydd y canllawiau'n cael eu cynnwys yn y ddogfen honno. Dysgu proffesiynol yw'r galluogwr ar gyfer y newidiadau. Bydd cerrig milltir ar gyfer ysgolion a bellach mae fframwaith newydd Estyn yn gweithio.

Bydd gan y cwricwlwm rywfaint o fanylion a deddfwriaeth ond bydd y cynllunio ar gyfer y cwricwlwm ar lefel yr ysgol i raddau helaeth.

Yr oedd rhywfaint o bryder ein bod yn colli golwg ar yr hyn sy'n bwysig, sef plant sy'n cael addysg dda. Deellir bod athrawon yn credu bod y cwricwlwm newydd yn ymwneud ag addysgu yn hytrach na chael gwybod beth i'w addysgu. Mae'r cwricwlwm yn seiliedig ar ragoriaeth ac ar gydraddoldeb i blant.

- Cododd yr Aelodau fater capasiti a gofyn am gyfraniad Llywodraethwyr Ysgolion. Nodwyd y bydd hyfforddiant ar gael i Lywodraethwyr a bod eu cefnogaeth yn hanfodol.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod rôl yr Ymgynghorydd Her yn datblygu ac yn cael ei hadolygu'n barhaus.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

6 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

7 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion bryd i'w trafod.

8 : DATE OF NEXT MEETING

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019 am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm